



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol

Deall damcaniaethau a modelau a'u
perthynas ag ymarfer sy'n
canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn a
dulliau sy'n seiliedig ar hawliau

Social Services Practitioner

Understand theories and models and their
relationship to person/child centred practice
and rights based approaches



Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r Consortiwm Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (SSP) ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r consortiwm yn cynnwys y partneriaid canlynol:

This resource has been developed in partnership by the Social Services Practitioner (SSP) Consortium on behalf of Social Care Wales. The consortium is made up of the following partners:



Gofal Cymdeithasol Cymru a'i gyngorwyr penodedig sy'n berchen ar hawlfraint y deunyddiau hyn. Gall darparwyr dysgu, awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau gofal yng Nghymru gopïo, atgynhyrchu, dosbarthu neu drefnu bod y Rhaglen Ddysgu Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (SSP) ar gael fel arall i unrhyw drydydd parti arall ar sail ddielw yn unig. Rhaid i unrhyw bartïon eraill sy'n dymuno copïo, atgynhyrchu, dosbarthu neu fel arall wneud y Rhaglen Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (SSP) ar gael i unrhyw drydydd parti arall geisio caniatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw.

The copyright to these materials rests with Social Care Wales and its appointed advisers. The Social Services Practitioner (SSP) Programme of learning may be copied, reproduced, distributed or otherwise made available to any other third party by learning providers, local authorities and care service providers in Wales on a not-for-profit basis only. Any other parties that wish to copy, reproduce, distribute or otherwise make the Social Services Practitioner (SSP) Programme available to any other third party must seek the prior written consent of Social Care Wales.

Sgiliau Astudio / Study Skills



Cyfeirnod / Referencing



Darllen / Reading



Ysgrifenu / Writing



Myfyrdod Beirniadol /
Critical Reflection



Cyfathrebiad /
Communication



Gwaith Grŵp / Group Work



Cyflwyniad / Presentation



Ymchwil / Research



Sgiliau rhyngpersonol /
Interpersonal Skills



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Yn ôl ym
Gymdeithas Cymru
Supported by
Welsh Government

Sgiliau Astudio Cudd / Hidden Study Skills

Peidiwch ag anghofio bod amrywiaeth o sgiliau wedi'u gwreiddio, gan gynnwys...

Trefniadaeth

Cadw amser

Cynllunio

Cymryd nodyn

Cynllunio Traethawd

Gwrandawriad

Datrys problemau

Penderfyniadau

Cwestiynu

Siarad yn effeithiol

Cyfathrebu llafar

Efallai y bydd rhai o'r rhain yn rhan o'ch sgiliau rhyngpersonol hefyd.

Don't forget there are a range of skills embedded including...

Organisation

Time keeping

Planning

Note taking

Essay planning

Listening

Problem solving

Decision making

Questioning

Effective speaking

Verbal communication

Some of these may form part of your Interpersonal Skills too.

Deilliant Dysgu 2

Learning Outcome 2

2. Deall datblygiad dynol ar draws oes a'r ffactorau a all effeithio arno

2. Understand human development across the lifespan and factors that can affect it

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.1: Pam mae dealltwriaeth o ddatblygiad dynol yn bwysig ar gyfer rôl yr ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol

English

Slide relating to AC 2.1: Why an understanding of human development is important for the role of social services practitioner

Pam fod y model Bioseicogymdeithasol yn bwysig i ymarferwyr?

- Mae'n ein hatgoffa bod llesiant cyffredinol person yn gysylltiedig â gwahanol agweddau a rhyngweithiadau sy'n digwydd ar unrhyw adeg benodol.
- Felly, mae'n annog asesiad iechyd cyfannol.
- Yn arwain at ofal a chynllunio triniaeth cyfannol.
- Tynnu gweithwyr proffesiynol ac unigolion o wahanol ddisgyblaethau at ei gilydd.
- Rhoi'r person yng nghanol ei ofal a'i adferiad.
- Annog cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ac ymarfer moesol/moesegol.
- Yn helpu i ddatrys cyfyng-gyngor moesegol.

Why is the Biopsychosocial model important to practitioners?

- It reminds us that a person's overall well-being is linked to different aspects and interactions that occur at any given time.
- Therefore, it encourages holistic health assessment.
- Resulting in holistic care and treatment planning.
- Drawing together professionals and individuals from different disciplines.
- Placing the person at the centre of their care and recovery.
- Encouraging compliance to legislation and moral/ ethical practice.
- Helps resolve ethical dilemmas.

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 1.8: Y model bioseicogymdeithasol fel dull o ddylanwadu ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn
Gall hyn fod yn ymarfer ymhlith y grŵp.

English

Slide relating to AC 1.8: The biopsychosocial model as an approach to influence person/child centred practice
This can be an exercise amongst the group.

2.1 Pam mae dealltwriaeth o ddatblygiad dynol yn bwysig i rôl yr ymarferwr gwasanaethau cymdeithasol?

- I ddefnyddio damcaniaethau a modelau seicolegol sy'n darparu fframwaith ar gyfer deall dysg, ymddygiad, personoliaeth a phersbectif unigolyn.
- I gydnabod bod ystod gyfan o ffactorau sy'n effeithio ar unigolyn cyn iddo gael ei eni hyd yn oed.
- I ddeall bod dylanwadau hanesyddol, crefyddol, diwylliannol, cymdeithasol, biolegol a seicolegol yn effeithio ar ddatblygiad dynol.
- Gwybod bod yna gerrig milltir datblygiadol.
- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n dylanwadu ar ymyriadau cadarnhaol.

2.1 Why is an understanding of human development important to the role of social services practitioner?

- To employ psychological theories and models that provide a framework for understanding an individual's learning, behaviour, personality and perspective.
- To recognise that there are a whole range of factors that affect an individual before they are even born.
- To understand that there are historical, religious, cultural, social, biological and psychological influences that affect human development.
- Know that there are developmental milestones.
- Develop knowledge and understanding that influence positive interventions.

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.1: Pam mae dealltwriaeth o ddatblygiad dynol yn bwysig ar gyfer rôl yr ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol

English


Slide relating to AC 2.1: Why an understanding of human development is important for the role of social services practitioner

2.2 Camau hollbwysig yn natblygiad niwrolegol a'r ymennydd yn ystod: y cyfnod cyn geni (y tymor cyntaf)

- Mae datblygiad yr ymennydd yn dechrau yn yr ychydig wythnosau cyntaf ar ôl cenedlu.

2.2 Critical stages in neurological and brain development during: the pre-birth period (first trimester)

- The development of the brain begins in the first few weeks after conception.



N.B. This image is only available in English

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.2: Camau hollbwysig yn natblygiad niwrolegol a'r ymennydd yn ystod: · y cyfnod cyn geni · plentyndod cynnar · llencyndod · oedolaeth ifanc.

Mae'r rhan fwyaf o nodweddion strwythurol yr ymennydd yn ymddangos yn ystod y cyfnod embryonig (tua'r 8 wythnos gyntaf ar ôl ffrwythloni); mae'r strwythurau hyn wedyn yn parhau i dyfu a datblygu yn ystod cyfnod y ffetws (gweddill y beichiogrwydd). Y digwyddiad allweddol cyntaf o ddatblygiad yr ymennydd yw ffurfio'r tiwb niwral. Tua phythefnos ar ôl cenedlu, mae'r plât niwral, sef haen o gelloedd arbenigol yn yr embryo, yn dechrau plygu'n araf arno'i hun, gan ffurfio strwythur siâp tiwb yn y pen draw. Mae'r tiwb yn cau'n raddol wrth i ymylon y plât uno gyda'i gilydd; mae'r broses hon fel ymarfer wedi'i chwblhau erbyn pedair wythnos ar ôl cenedlu. Mae'r tiwb niwral yn parhau i newid, gan ddod yn ymennydd a madruddyn y cefn yn y pen draw.

Mae i'r ymennydd dynol 3 phrif ran:

Coesyn yr ymennydd a serebelwm— mae'r rhain yn cysylltu'r ymennydd â llinyn y cefn ac yn rheoli anadlu'r corff, cyfradd curiad y galon, pwysedd gwaed, cydbwysedd ac atgyrchau.

System limbic— mae hwn yn eistedd ar ben coesyn yr ymennydd ac yn gofalu am lawer o wahanol swyddogaethau gan gynnwys emosiwn, syched, newyn, cof, dysgu, a rhythmau dyddiol y corff.

Cortecs cerebrol— mae hwn yn cynnwys hemisffer chwith a de, ac mae'n eistedd ar ben y system limbic. Mae'r cortecs cerebrol yn cynnwys:

llabed occipitiol — ar gyfer gweld

llabed arleisiol — ar gyfer clyw, iaith a rhyngweithio cymdeithasol

llabed blaen — ar gyfer cof, hunanreoleiddio, cynllunio a datrys problemau

llabed parwydol - ar gyfer teimladau corfforol fel poen, pwysau, gwres ac oerfel

Tua saith wythnos ar ôl cenhedlu mae'r niwronau a'r synapsau cyntaf yn dechrau datblygu ym madruddyn y cefn. Mae'r cysylltiadau niwral cynnar hyn yn caniatáu i'r ffetws wneud ei symudiadau cyntaf, y gellir eu canfod trwy uwchsain ac MRI, er, yn y rhan fwyaf o achosion, ni all y fam eu teimlo. Mae'r symudiadau hyn, yn eu tro, yn rhoi mewnbwn synhwyrdd i'r ymennydd sy'n sbarduno ei ddatblygiad. Mae symudiadau mwy cydlynol yn datblygu dros yr wythnosau nesaf.

Cyfeiriadau: Marsch R, Gerber AJ, Peterson BS. Neuroimaging studies of normal brain development and their relevance for understanding childhood neuropsychiatric disorders. *Journal of the American Academy of Child and Adolescent Psychiatry*. 2008;47(11):1233-1251.

O'Rahilly R, Mueller F. Significant features in the early prenatal development of the human brain. *Annals of Anatomy*. 2008;190:105-118.

<https://www.pregnancybirthbaby.org.au/how-your-babys-brain-develops>.

O'Rahilly R, Mueller F. Significant features in the early prenatal development of the human brain. *Annals of Anatomy*. 2008;190:105-118

Kurjak A, Pooh RK, Merce LT, et al. Structural and functional early human development assessed by three-dimensional and four-dimensional sonography. *Fertility and Sterility*. 2005;84(5):1285-1299.

English

Slide relating to AC 2.2: Critical stages in neurological and brain development during: · the pre-birth period · early childhood · adolescence · young adulthood.

Most of the structural features of the brain appear during the embryonic period (about the first 8 weeks after fertilisation); these structures then continue to grow and develop during the fetal period (the remainder of gestation). The first key event of brain development is the formation of the neural tube. About two weeks after conception, the neural plate, a layer of specialized cells in the embryo, begins to slowly fold over onto itself, eventually forming a tube-shaped structure. The tube gradually closes as the edges of the plate fuse together; this process is usually complete by four weeks after conception. The neural tube continues to change, eventually becoming the brain and spinal cord.

The human brain has 3 main parts:

Brain stem and cerebellum — these connect the brain to the spinal cord and control the body's breathing, heart rate, blood pressure, balance and reflexes.

Limbic system — this sits on top of the brain stem and looks after many different functions including emotion, thirst, hunger, memory, learning, and the body's daily rhythms.

Cerebral cortex — this consists of a left and right hemisphere, and sits on top of the limbic system. The cerebral cortex contains:

occipital lobe — for vision

temporal lobe — for hearing, language and social interaction

frontal lobe — for memory, self-regulation, planning and problem solving

parietal lobe — for bodily sensations like pain, pressure, heat and cold

About seven weeks after conception the first neurons and synapses begin to develop in the spinal cord. These early neural connections allow the fetus to make its first movements, which can be detected by ultrasound and MRI, even though, in most cases, the mother cannot feel them. These movements, in turn, provide the brain with sensory input that spurs on its development. More coordinated movements develop over the next several weeks.

References: Marsch R, Gerber AJ, Peterson BS. Neuroimaging studies of normal brain development and their relevance for understanding childhood neuropsychiatric disorders. *Journal of the American Academy of Child and Adolescent Psychiatry*. 2008;47(11):1233-1251.

O'Rahilly R, Mueller F. Significant features in the early prenatal development of the human brain. *Annals of Anatomy*. 2008;190:105-118.


<https://www.pregnancybirthbaby.org.au/how-your-babys-brain-develops>.

O'Rahilly R, Mueller F. Significant features in the early prenatal development of the human brain. *Annals of Anatomy*. 2008;190:105-118

Kurjak A, Pooch RK, Merce LT, et al. Structural and functional early human development assessed by three-dimensional and four-dimensional sonography. *Fertility and Sterility*. 2005;84(5):1285-1299.

Ail dymor (wythnos 13 i 28):

Second trimester (week 13 to 28):



- Mae mwy o gysylltiadau nerfol a meinwe'r ymennydd yn cael eu ffurfio.
- Mae'r cortecs cerebrol yn tyfu mewn trwch a chymhlethdod ac mae ffurfio synapsau yn yr ardal hon yn dechrau
- More nerve connections and brain tissue are formed.
- The cerebral cortex is growing in thickness and complexity and synapse formation in this area is beginning

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.2: Camau hollbwysig yn natblygiad niwrolegol a'r ymennydd yn ystod: · y cyfnod cyn geni · plentyndod cynnar · llencyndod · oedolaeth ifanc.

Y **cortecs cerebrol**, sef y rhan fwyaf o'r ymennydd, yw'r ganolfan reoli a phrosesu gwybodaeth eithaf yn yr ymennydd.

Mae'r cortecs cerebrol yn gyfrifol am lawer o swyddogaethau ymennydd lefel uwch megis teimlad, canfyddiad, cof, cysylltiad, meddwl, a gweithredu corfforol gwirfoddol. Y serebrwm yw prif ran fawr yr ymennydd ac mae'n gweithredu fel y ganolfan meddwl a rheoli.

Ffurio synapsau: adeiledd sy'n caniatáu i niwron (cell a gyffroir yn drydanol sy'n cyfathrebu â chelloedd eraill trwy synapsau) drosglwyddo signal trydanol neu gemegol i niwron arall.

Yn ystod yr ail dymor:

- Mae rhyw y babi yn dod i'r amlwg.
- Mae symudiadau aelodau yn dod yn amlwg.
- Maen nhw'n dechrau clywed.
- Maent yn cysgu ac yn deffro'n rheolaidd a gallant ddeffro i synau a symudiadau.
- Mae croen, gwallt, esgyrn, ysgyfaint ac organau'r babi yn cymryd eu natur unigryw eu hunain.

-
-

English

Slide relating to AC 2.2: Critical stages in neurological and brain development during: · the pre-birth period · early childhood · adolescence · young adulthood.

The **cerebral cortex** the largest part of the brain, is the ultimate control and information-processing center in the brain.

The cerebral cortex is responsible for many higher-order brain functions such as sensation, perception, memory, association, thought, and voluntary physical action.

The cerebrum is the large, main part of the brain and serves as the thought and control center.

Synapse formation: is a structure that permits a neuron (an electrically excitable cell that communicates with other cells via synapses) to pass an electrical or chemical signal to another neuron.

During the second trimester:

- The baby 's sex becomes apparent.
- Limb movements are becoming apparent.
- They begin to hear.
- They are regularly sleeping and waking and may awaken to noises and movements.
- The baby's skin, hair, bones, lungs and organs are taking on a distinctness of their own.

Trydydd tymor (wythnos 29 i 40)

Third trimester (week 29 to 40)



- Mae'r ymennydd yn frith o ddatblygiad cyflym niwronau a gwifrau.
- Yn fras, mae'r ymennydd yn treblu mewn pwysau yn ystod 13 wythnos olaf beichiogrwydd.
- Mae'r cerebellwm (sy'n bennaf gyfrifol am reolaeth echddygol) yn datblygu'n gyflym.
- Mae'r cortecs cerebrol (y rhan sy'n gyfrifol am feddwl, cofio a theimlo) yn datblygu'n gyflym.
- The brain is brimming with rapid development of neurons and wiring.
- The brain roughly triples in weight during the last 13 weeks of pregnancy.
- The cerebellum (chiefly responsible for motor control) is developing fast.
- The cerebral cortex (the part responsible for thinking, remembering and feeling) rapidly develops.

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.2: Camau hollbwysig yn natblygiad niwrolegol a'r ymennydd yn ystod: · y cyfnod cyn geni · plentyndod cynnar · llencyndod · oedolaeth ifanc.

Yn ystod y tymor hwn, gall y babi gicio, ymestyn a gwneud symudiadau gafael.

Gall y system nerfol ganolog gyfeirio symudiadau anadlu rhythmig a rheoli tymheredd y corff.

Gall llygaid y babi agor yn llydan a gallai fod ganddo ben llawn gwallt.

Gall canhwyllau llygaid y babi newid maint mewn ymateb i ysgogiad a achosir gan olau.

Mae ei esgyrn yn caledu. Fodd bynnag, mae'r benglog yn parhau i fod yn feddal ac yn hyblyg.

Mae'r babi yn ennill pwysau yn gyflym.

English

Slide relating to AC 2.2: Critical stages in neurological and brain development during: · the pre-birth period · early childhood · adolescence · young adulthood.

In this trimester, the baby can kick, stretch and make grasping movements.

The central nervous system can direct rhythmic breathing movements and control body temperature.

The baby's eyes can open wide and might have a good head of hair.

The baby's pupils can change size in response to a stimulus caused by light. His or her bones are hardening. However, the skull remains soft and flexible.

The baby gains weight quickly.

Datblygiad niwrolegol ac ymennydd yn ystod: plentyndod cynnar, llencyndod ac oedolaeth ifanc:

- Adeg genedigaeth dim ond 25% o'n hymennydd sydd wedi datblygu.
- Mae'r ymennydd yn parhau i dyfu i tua 80% o faint oedolyn erbyn 3 oed a 90% – bron i'w lawn dwf – erbyn 5 oed.
- Mae'r twf ym mhob rhan o'r ymennydd yn dibynnu i raddau helaeth ar dderbyn ysgogiad.
- Mae'r ysgogiad hwn yn darparu'r sylfaen ar gyfer dysgu.

Neurological and brain development during: early childhood, adolescence and young adulthood:

- At birth our brains are only 25% developed.
- The brain keeps growing to about 80% of adult size by age 3 and 90% – nearly full grown – by age 5.
- The growth in each region of the brain largely depends on receiving stimulation.
- This stimulation provides the foundation for learning.

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.2: Camau hollbwysig yn natblygiad niwrolegol a'r ymennydd yn ystod: · y cyfnod cyn geni · plentyndod cynnar · llencyndod · oedolaeth ifanc.
Cyfeiriad: www.firstthingsfirst.org/early-childhood-matters/brain-development/

English

Slide relating to AC 2.2: Critical stages in neurological and brain development during: · the pre-birth period · early childhood · adolescence · young adulthood.
Reference: www.firstthingsfirst.org/early-childhood-matters/brain-development/

Datblygiad yr ymennydd:

Brain development:



N.B. This image is only available in English

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.2: Camau hollbwysig yn natblygiad niwrolegol a'r ymennydd yn ystod: · y cyfnod cyn geni · plentyndod cynnar · llencyndod · oedolaeth ifanc. Ar gyfer datblygiad iach cylchedau'r ymennydd, mae angen i'r unigolyn gael profiadau iach; gall diffyg y rhain arwain at dan-fanylebu a cham-weirio cylchedau'r ymennydd. Nid oes gan blant a fagwyd mewn lleoliadau sefydliadol yn Rwmania brofiadau sy'n ysgogi twf iach ac felly byddem yn disgwyl gweld “gwallau” dilynol yn natblygiad yr ymennydd yn arwain at ystod o broblemau.

Cyfeiriad: www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC3722610/

English

Slide relating to AC 2.2: Critical stages in neurological and brain development during: · the pre-birth period · early childhood · adolescence · young adulthood. For healthy development of brain circuits, the individual needs to have healthy experiences; the lack of these may lead to the under specification and mis-wiring of brain circuits. Children raised in institutional settings in Romania lack experiences that stimulate healthy growth and thus we would expect to see consequent “errors” in brain development giving rise to a range of problems.

Reference: www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC3722610/

Datblygiad yr ymennydd: plentyndod cynnar (genedigaeth i 5 oed)

- Gan ddechrau o enedigaeth, mae plant yn datblygu cysylltiadau ymennydd trwy eu profiadau bob dydd. Cânt eu hadeiladu trwy ryngweithio cadarnhaol â'u rhieni a'u gofawyr a thrwy ddefnyddio eu synhwyrâu i ryngweithio â'r byd.
- Mae profiadau dyddiol plentyn ifanc yn pennu pa gysylltiadau ymennydd sy'n datblygu a pha rai fydd yn para am oes. Mae maint ac ansawdd y gofal, yr ysgogiad a'r rhyngweithio a gânt yn eu blynyddoedd cynnar yn hollbwysig.
- Mae o leiaf miliwn o gysylltiadau niwrol newydd (synapsau) yn cael eu gwneud bob eiliad, yn fwy nag ar unrhyw adeg arall mewn bywyd.

Brain development: early childhood (birth to 5 years)

- Starting from birth, children develop brain connections through their everyday experiences. They're built through positive interactions with their parents and caregivers and by using their senses to interact with the world.
- A young child's daily experiences determine which brain connections develop and which will last for a lifetime. The amount and quality of care, stimulation and interaction they receive in their early years is crucial.
- At least one million new neural connections (synapses) are made every second, more than at any other time in life.

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.2: Camau hollbwysig yn natblygiad niwrolegol a'r ymennydd yn ystod: · y cyfnod cyn geni · plentyndod cynnar · llencyndod · oedolaeth ifanc. Y blynyddoedd cynnar yw'r cyfle gorau i ymennydd plentyn ddatblygu'r cysylltiadau sydd eu hangen arno i fod yn oedolyn iach, galluog a llwyddiannus. Mae'r cysylltiadau sydd eu hangen ar gyfer llawer o alluoedd lefel uwch pwysig fel cymhelliant, hunan-reoleiddio, datrys problemau a chyfathrebu yn cael eu ffurfio yn y blynyddoedd cynnar hyn - neu heb eu ffurfio. Mae'n llawer anoddach i'r cysylltiadau ymennydd hanfodol hyn gael eu ffurfio yn ddiweddarach mewn bywyd

English

Slide relating to AC 2.2: Critical stages in neurological and brain development during: · the pre-birth period · early childhood · adolescence · young adulthood. The early years are the best opportunity for a child's brain to develop the connections they need to be healthy, capable, successful adults. The connections needed for many important, higher-level abilities like motivation, self-regulation, problem solving and communication are formed in these early years – or not formed. It's much harder for these essential brain connections to be formed later in life

Datblygiad yr ymennydd:

Meddylwch yn gyflym!

Pa fathau o ffactorau cadarnhaol a negyddol ydych chi'n meddwl sy'n effeithio ar ddatblygiad yr ymennydd?

Brain development:

Quick think!

What types of positive and negative factors do you think affect brain development?



Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.2: Camau hollbwysig yn natblygiad niwrolgol a'r ymennydd yn ystod:

- y cyfnod cyn geni
- plentyndod cynnar
- llencyndod
- oedolaeth ifanc.

Bydd yr atebion yn eang eu cwmpas, ond dylai dysgwyr fod yn nodi: etifeddiaeth enetig (deallusrwydd, ymwrthedd i salwch ac afiechyd, nodweddion corfforol y rhieni), straen, maeth, anghenion dynol sylfaenol (pyramid Hierarchaeth anghenion Maslow), dylanwadau diwylliannol, ffactorau cymdeithasol ac economaidd, camddefnyddio sylweddau, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, mynediad at addysg ac iechyd, sefydliadoli, mynediad at chwarae a chymdeithasu, cyffwrdd corfforol, cyfathrebu, canmoliaeth (adborth ac atgyfnerthu, y math o ddysgu sy'n cael ei addysgu a'i arsylwi).

English

Slide relating to AC 2.2: Critical stages in neurological and brain development during:

- the pre-birth period
- early childhood
- adolescence
- young adulthood.

The answers will be wide-ranging, but learners should be identifying: genetic inheritance (intelligence, resistance to illness and disease, physical attributes from the parents), stress, nutrition, basic human needs (Maslow's Hierarchy of needs pyramid), cultural influences, social and economic factors, substance misuse, adverse childhood experiences, access to education and health, institutionalisation, access to play and socialisation, physical touch,

communication, praise (feedback & reinforcement, the type of learning that is being taught and observed.

Camau hollbwysig yn natblygiad niwrolegol a'r ymennydd yn ystod:

- cyfnod cyn geni
- plentyndod cynnar
- llencyndod
- oedolaeth ifanc.

Fideo (5 munud)

Critical stages in neurological and brain development during:

- the pre-birth period
- early childhood
- adolescence
- young adulthood.

Video (5 mins)



Facilitator notes

Welsh

Cyswllt Fideo - <https://youtu.be/hMyDFYSkZSU>

Slide yn ymwneud ag AC 2.2: Camau hollbwysig yn natblygiad niwrolegol a'r ymennydd yn ystod:

- y cyfnod cyn geni
- plentyndod cynnar
- llencyndod
- oedolaeth ifanc.

Fideo (5 munud)

English

Video Link - <https://youtu.be/hMyDFYSkZSU>

Slide relating to AC 2.2: Critical stages in neurological and brain development during:

- the pre-birth period
- early childhood
- adolescence
- young adulthood.

Video (5 mins)

Datblygiad yr ymennydd: llencyndod i oedolaeth gynnar ('Tocio').

- Yn ystod y cyfnod hwn, gall emosiynau y glasoed ddylanwadu'n ormodol ar wneud penderfyniadau, oherwydd bod eu hymennydd yn dibynnu mwy ar y system limbic (ardal emosiynol yr ymennydd) na'r cortecs rhagflaenol mwy rhesymegol, nad yw wedi aeddfedu.
- Gallai hyn esbonio pam mae pobl ifanc yn eu harddegau yn fwy tebygol o:
 - gweithredu ar ysgogiad.
 - camddarllen neu gamddehongli ciwiau ac emosiynau cymdeithasol.
 - cael damweiniau o bob math.
 - cymryd rhan mewn ymladd.
 - cymryd rhan mewn ymddygiad peryglus neu llawn risg.

Brain development: adolescence to early adulthood ('Pruning').

- During this phase, an adolescent's decision-making can be overly influenced by emotions, because their brains rely more on the limbic system (the emotional seat of the brain) than the more rational prefrontal cortex, which has not matured.
- This might explain why adolescents are more likely to:
 - act on impulse.
 - misread or misinterpret social cues and emotions.
 - get into accidents of all kinds.
 - get involved in fights.
 - engage in dangerous or risky behaviour.



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Maddi gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Facilitator notes

Welsh

Sleid yn ymwneud ag AC 2.2: Camau hollbwysig yn natblygiad niwrolegol a'r ymennydd yn ystod: · y cyfnod cyn geni · plentyndod cynnar · llencyndod · oedolaeth ifanc. Mae'r ardal limbic yn bwysig iawn ar gyfer creu cymhelliant. Mae'r ardal limbic a choesyn yr ymennydd yn gweithio gyda'i gilydd i gymell ein hymddygiad ac, yn gyffredinol, mae gan y glasoed lefelau cymhelliant is na phlentyndod neu oedolyn. Ar gyfer yr ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol, gallai hyn helpu teuluoedd, gofalcwyr plant a phobl ifanc, ac asiantaethau eraill, i ddeall nad yw person ifanc o reidrwydd yn ddiog nac yn anodd rhyngweithio ag ef yn fwriadol, ond ei fod yn gweithredu mewn ymateb i ddau ddatblygiad ymennydd pwysig iawn:

1. 'Tocio'. Mae ymennydd y glasoed yn defnyddio (cryfhau) neu'n colli cysylltiadau synaptig yn yr ymennydd, sy'n golygu bod yr ymennydd yn cadw'r hyn sy'n ddefnyddiol yn niwrolegol, ac yn colli cysylltiadau nad oes ganddynt berthnasedd na defnydd mwyach. Mae'n digwydd i arbenigo'r ymennydd i barhau â'r hyn y mae'r glasoed yn ei hoffi, ei fwynhau ac yn ei garu. Mae'r broses hon yn dechrau yn ystod plentyndod cynnar, ond gall barhau i oedolaeth gynnar; y mae ei benderfyniad yn dibynnu ar yr unigolyn.

2. Ffuriant Myelin: y byddwn yn edrych arno yn y sleid nesaf.


English

Slide relating to AC 2.2: Critical stages in neurological and brain development during: · the pre-birth period · early childhood · adolescence · young adulthood. The limbic area is very important for creating motivation. The limbic area and brain stem work together to motivate our behaviour and, generally, adolescent's have lower motivation levels than a child or adult. For the social services practitioner, this might help families, children and young people's carers, and other agencies, understand that a young person is not necessarily lazy or being deliberately difficult to interact with, but is acting in response to two very important brain developments:

1. 'Pruning'. The adolescent's brain is using (strengthening) or losing synaptic connections in the brain, meaning that the brain is retaining what is neurologically useful, and losing connections that no longer have relevance or use. It occurs to specialise the brain to continue what the adolescent likes, enjoys and loves. This process begins in early childhood, but can continue into early adulthood; the determination of which depends on the individual.
2. Myelin Formation: which we will look at in the next slide.

Datblygiad yr ymennydd: (Ffuriant Myelin).

Brain development: (Myelin Formation).



N.B. This image is only available in English

Mae Myelin yn wain iach sy'n amgylchynu niwronau cysylltiedig. Ei ddiben yw amddiffyn y celloedd nerfol, ond mae hefyd yn cydlynu cyfathrebu. Mae'n caniatáu i niwronau gyfathrebu 3,000 gwaith yn gyflymach na niwronau heb eu gorchuddio, gan arwain at ymennydd mwy effeithlon. Gelwir y broses yn 'integreiddio', ac mae'n rhan o 'ail-fodelu' ymennydd y glasoed.

